

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Rhianta yng Nghymru a rhoi'r Cynllun
Gweithredu Rhianta ar waith

Mai 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gellir cael rhagor o gopiau o'r adroddiad hwn, neu gopiau mewn fformat arall gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
e-bost: Linda.heard@wales.gsi.gov.uk

Mae fersiwn electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Pwyllgor:
www.cynulliadcymru.org

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson – Clerc y Pwyllgor
Rita Phillips – Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Linda Heard – Swyddog Cymorth y Pwyllgor

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Kathryn Potter – Arbenigwr y Pwyllgor
Rebekah James – Arbenigwr y Pwyllgor

Gwasanaethau Cyfreithiol

Helen Roberts – Cyngorydd Cyfreithiol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Rhianta yng Nghymru a rhoi'r Cynllun
Gweithredu Rhianta ar waith

Mai 2009



CYNNWYS		TUDALEN
Aelodau'r pwyllgor		3
Cyflwyniad y Cadeirydd		4
Cyflwyniad		5
Y cefndir i Gynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cynulliad Cymru		8
Y cyd-destun polisi a deddfwriaethol ehangach		9
Y Cynllun Gweithredu Rhianta		12
Datblygu gwaith rhianta		24
Casgliadau ac argymhellion		31
Atodiad 1	Crynodeb o'r argymhellion	43
Atodiad 2	Cylch gorchwyl, Rhestr o'r dystiolaeth lafar a'r dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd	46
Atodiad 3	Enghreifftiau o arfer da mewn ymateb i alwad y Pwyllgor am dystiolaeth ysgrifenedig	48

Aelodau'r Pwyllgor



Helen Mary Jones
Cadeirydd
Llanelli
Plaid Cymru



Angela Burns
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir
Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



Christine Chapman
Cwm Cynon
Llafur



Lynne Neagle
Tor-faen
Llafur



Kirsty Williams
Brycheiniog a Sir Faesyfed
Democratiaid Rhyddfrydol
Cymru

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD



Byddai'n llawer haws bod yn rhiant pe bai plant yn dod gyda cyfarwyddiadau. Yn anffodus, nid felly y mae!

Credaf mai bod yn rhiant yw'r gwaith anoddaf ond y mwyaf pleserus o bob swydd. Caiff ddylanwad dwfn ar bob plentyn ac mae'n para oes. Ond mae gwerth rhianta, mor aml, yn cael ei anghofio gan gymdeithas a dim ond wrth i broblemau godi neu wrth i rywbeth fynd o'i le y caiff sylw yn y wasg.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, rwy'n teimlo'n angerddol dros gydnabod gwaith rhieni yng Nghymru. Yn 2005, roeddwn yn falch o glywed fod llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu 10 cam a oedd yn nodi ei hymdrechion i gynorthwyo rhieni. Fodd bynnag, daeth y Cynllun Gweithredu Rhianta i ben yn 2008, a blwyddyn yn ddiweddarach, ymddengys mai ychydig iawn a gafodd ei wneud i ddatblygu strategaeth rianta llywodraeth Cymru.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod angen ymchwilio i'r mater hwn, ac er bod rhai camau wedi cael eu gweithredu, daeth yn amlwg mai darniog iawn oedd cynnydd y camau eraill neu nad oedd rhai wedi'u gweithredu o gwbl. Fel Pwyllgor, rydym yn galw ar lywodraeth Cymru i gydnabod natur amrywiol teuluoedd Cymru, i hyrwyddo hawliau rhieni a chodi proffil rhianta cadarnhaol drwy gyflwyno Strategaeth Rianta a Chamau Gweithredu newydd sy'n sicrhau bod y plentyn a'r rhiant yn ganolog i'r gwasanaethau.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ac a roddodd gymorth i ni yn ein hymchwiliad. Hoffwn hefyd ddiolch i Ann Jones AC sydd wedi dirprwyo'n rheolaidd ar ran Lynne Neagle AC ac i Eleanor Burnham AC, sy'n gyn-Aelod o'r Pwyllgor.

Diolch yn arbennig i'r rhieni a wnaeth yr ymdrech i gwrdd ag aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Roedd eu profiad a'u gonestrwydd yn amhrisiadwy wrth gynorthwyo'r Pwyllgor i asesu effeithiolrwydd y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i rieni yng Nghymru, yn unol â'r Cynllun Gweithredu Rhianta. Yn wir, mae'n deg dweud bod eu dystiolaeth hwy wedi rhoi cryfder i'r adroddiad hwn.

Fel y dywedodd un fam, "nid ydych chi byth yn rhoi'r gorau i fod yn rhiant", felly rydym yn pwysu ar lywodraeth Cymru i gymryd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn o ddifrif er lles ein plant a fydd, un diwrnod, yn rhieni eu hunain.

Helen Mary Jones AC

Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

CYFLWYNIAD

Helen Mary Jones AC - Mae [rhianta] yn debyg i waith tŷ – dim ond pan nad yw'n cael ei wneud rydych yn sylwi arno.

“It [parenting] is like housework – you only notice it when it is not done.”¹

Ym mis Ebrill 2008, cyhoeddwyd ymchwiliad i ganolbwyntio ar rianta a Chynllun Gweithredu Rhianta tair blynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005-2008).

Pam rhianta? Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud ein gorau i gael trefn ar rianta. Fel y dywed Gail Bennett, sy'n Gydgysylltydd Strategaeth Rianta, Cyngor Sir y Fflint:

“It is about the promotion of parenting, and seeing it as being as valuable as the work on children and young people.”²

Penderfynwyd tynnu sylw at rianta a chymorth i rieni a gofalwyr am ein bod o'r farn fod hyn yn faes polisi hanfodol bwysig nad yw wedi cael y sylw haeddiannol, ac mae'n cyffwrdd â bywyd pob un ohonom. Ategwn y sylw a wnaeth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wrth lansio'r Cynllun Gweithredu Rhianta yn 2005:

“It is my intention to provide the best support possible for those engaged in one of the most demanding and rewarding of occupations being undertaken in Wales – raising children.”³

Fodd bynnag, fel Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rydym wedi clywed pryderon parhaus am y cymorth sydd ar gael i rieni a gofalwyr yng Nghymru. Yn wahanol i Loegr, nid yw Cymru wedi cael swm penodol i gynorthwyo datblygiadau ym maes rhianta,⁴ er gwaetha'r ffaith, fel y dywedodd Christine Chapman AC, un o Aelodau'r Pwyllgor:

“...if we sorted parenting out, we could resolve many issues but the problem is...that it is not always a priority.”⁵

Fel Pwyllgor, credwn y gall rhianta cadarnhaol da helpu i atal neu leddfu llawer o'r anawsterau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu wrth iddynt dyfu. Yn ei dro, bydd hyn o fantais i'n cymunedau yn y tymor hwy. Dywedodd Eleanor Burnham AC, cyn-Aelod o'r Pwyllgor, fod angen:

“turn around the thinking to say how much will be saved at the other end rather than the programmes being seen as a cost.”⁶

¹ Cofnod y Trafodion t14, 23 Hydref 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

² Ibid, t13

³ Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cynulliad Cymru, [Minister announces groundbreaking plan for parents](#) 13 Rhagfyr 2005

⁴ Swyddfa Archwilio Cymru, (Hydref 2008) *Adolygiad o Gynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cynulliad Cymru*, paragraff 48, t12

⁵ Cofnod y Trafodion t14, 23 Hydref 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁶ Cofnod y Trafodion t29, 27 Tachwedd 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Credwn nad yw cymdeithas ym Mhrydain yn gwerthfawrogi rhianta cymaint ag y dylai. O ganlyniad, mae'n bosibl y caiff cyllid rhaglenni cymorth i rieni gan lywodraeth leol a llywodraeth ganolog ei dylanwadu gan ddiwylliant o flaenoriaeth isel a roddir i rianta yn y DU. Mae oblygiadau ymarferol i'r ffordd rydym fel cymdeithas yn gwerthfawrogi rhianta, fel y cyflogau cymharol isel a'r statws a roddir i bobl sy'n gofalu am blant.

Daeth y Cynllun Gweithredu Rhianta i ben ym mis Mawrth 2008 ac ychydig iawn y mae llywodraeth Cymru wedi sôn yn y cyfamser am y ffordd y bydd gwaith i gynorthwyo rhianta yn cael ei ddatblygu. Nid yw rhaglen lywodraethu Cymru'n Un yn cyfeirio'n benodol at rianta. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Tony Ivens, Swyddog Datblygu Tadolaeth Plant yng Nghymru:

"This March (2008) was the end of the three-year period of the plan, and we had a meeting with Jane Hutt, who was very positive and made a commitment to an ongoing parenting action plan. However, in the subsequent meeting that we had with officials, it became apparent to us that there was a pretty much total lack of resources available to deliver anything.

We took the view that the best interests of children and young people would not be served by producing a document without any resources to back it up. Bearing in mind that this committee was new and was about to sit, we thought it best if we took a gap year, effectively, and looked at the findings of this committee. That was done in the hope that some resources would be available in the next financial year, and so we are looking to move it forward in 2009. At the moment, we are in a state of stasis, and we have no parenting action plan."⁷

Felly penderfynwyd cynnal ymchwiliad drwy edrych yn ôl ar y Cynllun Gweithredu Rhianta a defnyddio hyn fel y prism ar gyfer craffu ar gymorth rhianta yn ehangach.

Nid oedd y Cynllun ei hun wedi cael ei werthuso cyn hynny felly ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael o ran yr hyn a gyflawnwyd. At y diben hwn, gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Archwilydd Cyffredinol Cymru ein cynorthwyo drwy wneud gwaith penodol yn canolbwyntio ar adolygu'r Cynllun Gweithredu Rhianta. Archwiliodd Swyddfa Archwilio Cymru ddogfennau perthnasol, cynhaliodd gyfweiliadau â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a chynhaliodd arolwg o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal â'r dystiolaeth uniongyrchol a gawsom.

Ar ôl cymryd tystiolaeth a chynnal ein hymchwiliad, gallwn bellach gyflwyno cyfres o gasgliadau ac argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth i lywodraeth Cymru ac i eraill sy'n berthnasol. Ceir crynodeb o'n hargymhellion yn Atodiad 1.

⁷ Cofnod y Trafodion t6, 9 Hydref 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Yn ystod yr ymchwiliad, cawsom dystiolaeth gan amrywiaeth eang o dystion, gan gynnwys: Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; awdurdodau lleol; sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda rhieni, plant a phobl ifanc; grwpiau rhwydweithiau rhieni a hwyluswyr sgiliau rianta. Trafodwyd hefyd y syniadau oedd gennym yn ystod cyfarfodydd anffurfiol yr ymchwiliad â tua 30 o rieni ac a hwyluswyd gan Plant yng Nghymru. Fel dirprwy Aelod o'r Pwyllgor, aeth Ann Jones AC ar ymweliad rapporteur i gwrdd yn anffurfiol â grwpiau amrywiol o rieni yn Sir y Fflint, mewn cyfarfod a hwyluswyd gan Gyngor Sir y Fflint a Grŵp Strategeth Rianta Sir y Fflint.

Cawsom dros 30 o ymatebion hefyd i'r alwad am dystiolaeth ysgrifenedig. Ceir y manylion hynny yn Atodiad 2 ynghyd â manylion y 4 cyfarfod o'r pwyllgor lle y cafwyd tystiolaeth lafar.

Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom am nifer o enghreifftiau o arfer da yn ymwneud â chynorthwyo rhieni, a cheir manylion hynny yn Atodiad 3. Ceir sawl enghraifft o arfer da yn yr adroddiad hwn.

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad

Cytunodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer yr ymchwiliad:

1. Craffu ar y broses o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Rianta (Rhagfyr 2005-Mawrth 2008);
2. Craffu ar yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i barhau â'i gwaith ar rianta, ac i'w ddatblygu, ac i sicrhau bod adnoddau ar gael i wneud hynny;
3. Casglu tystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio a hefyd o ran pa gamau y dylid eu cymryd i ddatblygu'r agenda.

Y CEFNDIR I GYNLLUN GWEITHREDU RHIANTA LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Rhianta⁸ yn 2005, ar ôl cael ei lunio gan Weithgor a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant (a gafodd ei enwi'n Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn ddiweddar). Bwriad y Cynllun Gweithredu oedd sicrhau:

“a more coherent approach is taken to the development of parenting support services in Wales, so that parents and carers are better informed and better supported.”⁹

Bwriad y Cynllun Gweithredu oedd bod yn 'ddogfen fyw' â phedwar nod penodol:

- codi proffil rhianta ymysg gwneuthurwyr polisi a darparwyr gwasanaethau yng Nghymru;
- datblygu'r polisiâu a'r gwasanaethau sy'n cefnogi mamau, tadau a gofalwyr ymhellach;
- cysylltu â pholisiau a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â rhianta;
- nodi cyfres o gamau allweddol i lywodraeth Cymru eu cymryd i gefnogi rhianta.

Felly mae'r Cynllun yn cynnwys 10 o gamau gweithredu yr oedd disgwyl i lywodraeth Cymru, ynghyd â rhai awdurdodau lleol eu cyflawni, a chafodd groeso cyffredinol ar ôl ei gyhoeddi. Er bod rhai o'r camau gweithredu hynny wedi cael eu cyflawni, dengys y dystiolaeth a gasglodd Swyddfa Archwilio Cymru mai ond yn rhannol y cyflawnwyd rhai o'r camau ac na chyflawnwyd rhai camau o gwbl ac nad oedd unrhyw adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer y Cynllun er mwyn ei weithredu.¹⁰

⁸ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) [Cynllun Gweithredu Rhianta](#)

⁹ Ibid, t8

¹⁰ Swyddfa Archwilio Cymru (Hydref 2008) *Adolygiad o Gynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cynulliad Cymru*, paragraff 8, t4

Y CYD-DESTUN POLISI A DEDDFWRIAETHOL EHANGACH

Nid yw rhianta yn faes polisi ar wahân a datblygwyd nifer o bolisiâu newydd ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu. Drwy ddefnyddio'r Cynllun Gweithredu Rhianta fel canolbwynt ein hymchwiliad, clywsom am ystod eang o bolisiâu, rhaglenni a gwasanaethau eraill sy'n effeithio ar rianta.

Bu cynnydd yn y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chymorth rhianta a dargedwyd yn benodol ar gyfer ardaloedd daearyddol o amddifadedd, drwy fentrau Cymorth - Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc, Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Roedd cam terfynol y gwaith o gynhyrchu'r Cynllun Gweithredu Rhianta yn cydreded â datblygiad y rhaglen Dechrau'n Deg a dylanwadodd hynny ar ei gyfansoddiad. Mae Dechrau'n Deg yn grant penodol sy'n ategu Cymorth ac sydd wedi'i dargedu ar gyfer plant 0-3 oed sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r ymyraethau'n cynnwys gofal plant am ddim ar gyfer plant 2 oed, ymweliadau iechyd ychwanegol a rhaglenni rhianta. Mae'r rhaglenni hyn yn seiliedig ar anghenion cyffredinol ac anghenion penodol rhieni a'u plant a chânt eu darparu gan bobl broffesiynol, hyfforddedig. Cynhyrchwyd arweiniad Dechrau'n Deg ar rianta i ategu cam gweithredu 4 y Cynllun Gweithredu Rhianta. Canfuwyd yn ein tystiolaeth y caiff Dechrau'n Deg ei gydnabod yn gyffredinol am y cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer plant 0-3 oed mewn ardaloedd daearyddol a dargedwyd.

Yn yr un modd, defnyddiwyd arian Cymorth i sicrhau mwy o gymorth rhianta na'r hyn a fyddai wedi bod ar gael fel arall. Cynllun grant yw Cymorth, â'r nod yw darparu rhwydwaith o gymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a phobl ifanc, eto wedi'i dargedu'n benodol tuag at ardaloedd difreintiedig. Caiff ei weinyddu drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ym mhob awdurdod lleol.

Polisiâu a rhaglenni eraill sy'n dylanwadu ar rianta yw'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru, sy'n cynnwys "Safon Rhianta". Mae safon y Fframwaith yn gofyn i awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG gydwethio i sicrhau y gall rhieni a gofalwyr ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau a fydd yn eu cynorthwyo i feithrin twf corfforol, cymdeithasol ac emosiynol y plant a'r bobl ifanc sydd yn eu gofal. Cyfeiriwyd at y Fframwaith yn ein tystiolaeth, ond nid oedd yn elfen amlwg.

Mae nifer o fentrau lleol sy'n cynorthwyo rhieni ac yn darparu gwybodaeth a chyngor. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant (bellach y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd); mentrau Dechrau'n Deg; Ysgolion Bro; y Strategaeth Gofal Plant a'r Canolfannau Plant Integredig. Mae'r canolfannau hyn yn seiliedig ar y cysyniad bod darparu addysg, gofal, cymorth teuluol a gwasanaethau iechyd integredig yn ffactor allweddol wrth sicrhau canlyniadau da i blant a'u rhieni a sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd. Mae pob canolfan yn darparu Addysg Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant, Chwarae Mynediad Agored, Addysg Gymunedol a Hyfforddiant.

Y farn yw bod y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc mewn sefyllfa gref i ddwyn ynghyd y polisïau sy'n ymwneud â rhianta a sicrhau, drwy'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, y gall awdurdodau lleol ymateb i anghenion a darparu cymorth a gwasanaethau rhianta. Mae gan lawer o awdurdodau lleol hefyd strategaethau rhianta a rhwydweithiau rhieni sy'n cynorthwyo rhieni i gymryd rhan yn y broses o gynllunio gwasanaethau. Clywsom dystiolaeth am rôl Rhwydweithiau Rhieni, gyda thystiolaeth gadarnhaol gan Rwydwaith Rhieni Caerffili am y proffil sydd ganddo yn yr ardal honno. Dywedodd Anne Fritter wrthym:

“People come to us for consultations, to discuss parenting issues and to ask us to feed into their work. I represent the parent network on the children and young people’s framework partnership, so the fact that we are engaged at the highest strategic level in Caerphilly in terms of children and young people is an indication of the work that is being done around parent participation and our profile in the county.”¹¹

Rhoddir cymorth penodol i rieni hefyd drwy gynlluniau fel Genesis Cymru, a'r bwriad yw cynorthwyo unigolion i ailafael mewn gwaith a hyfforddiant. Cyfeirir yn aml at Genesis Cymru yn ein tystiolaeth fel ffordd hyblyg, nad yw'n fygythiol, o gael rhieni i ymgymryd â hyfforddiant pellach, gwirfoddoli a chyfleoedd cyflogaeth.

Mae'r sector gwifroddol yn chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo rhieni a chawsom dystiolaeth niferus o arferion da. Mae awdurdodau lleol yn contractio amrywiaeth eang o ddarparwyr gwasanaeth fel Home Start, yr elusen annibynnol gofrestrdedig sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol, i gysylltu â theuluoedd am y tro cyntaf, meithrin perthynas, meithrin ymddiriedaeth a chynorthwyo teuluoedd i ddefnyddio rhaglenni eraill a ddarperir gan bobl broffesiynol.¹³

Yn ogystal â pholisïau, mentrau a gwasanaethau cenedlaethol a lleol, clywsom am ystod o raglenni rhianta fel y Blynyddoedd Rhyfeddol - sef cyfres o raglenni ymchwil, a ddatblygwyd yn y Ganolfan Blynyddoedd Rhyfeddol ym Mangor ar gyfer cynorthwyo rhieni i reoli problemau ymddygiad ac ymosodedd plant, a gwella cymhwysedd cymdeithasol plant gartref ac yn yr

Enghreifftiau o Arfer Da:

Genesis Cymru

“Mae dros 500 o rieni yn Wrecsam, gan gynnwys nifer sylweddol o Rieni Unigol, wedi cael cyngor, cymorth ac arweiniad er mwyn eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth drwy brosiect Genesis Cymru. Mae hyn yn digwydd ledled Cymru ...

Aeth llawer o'r rhai a fanteisiodd ar yr hyfforddiant ar gwrs llwyddiannus iawn 'Making Choices'. Cwrs rhagflas gofal plant oedd hwn a chafodd llawer o blant eu profiad cyntaf o ofal plant yn y creche a ddarparwyd am ddim.”¹²

¹¹ Cofnod y Trafodion t25, 9 Hydref 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

¹² Swyddfa Gwybodaeth i Blant Wrecsam ar ran Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant Cymru – tystiolaeth ysgrifenedig.

¹³ Mae Home Start yn amcangyfrif bod ganddynt gontract gydag 86% o awdurdodau lleol ledled y DU. Tystiolaeth ysgrifenedig gan [Home Start](#)

ysgol. Roedd cam gweithredu 4 y Cynllun Gweithredu Rhianta yn cynnwys ariannu ar gyfer rhaglenni'r Blynyddoedd Rhyfeddol.

Bu datblygiadau deddfwriaethol hefyd a fydd yn effeithio ar waith rhianta a gyflwynir yng Nghymru gyda'r pwerau a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ym maes tlodi plant a phlant agored i niwed.¹⁴ Dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthym y byddai'n cyflwyno deddfwriaeth ar ffurf Mesur y Cynulliad¹⁵ a fyddai'n cynnwys:

- Dyletswydd tlodi plant ar asiantaethau cyhoeddus;
- Dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu lleoedd gofal plant am ddim a gwasanaethau eraill blynyddoedd cynnar mewn manau penodol;
- Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a fydd yn cyfateb i'r arweiniad a roddir ar gyfer darparu'r grant Cymorth;
- Cymorth i deuluoedd drwy Wasanaeth Cymorth Teuluol Integredig (IFSS), ac i gryfhau'r gwaith o orfodi rheoleiddio mewn lleoliad plant.

¹⁴ Daw'r pwerau hyn o'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Plant Diamddiffyn a Thlodi Plant (*Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008* (Ebrill 2008))

¹⁵ Cyflwynwyd y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar 2 Mawrth 2009.

Y CYNLLUN GWEITHREDU RHIANTA

Effeithiolrwydd a dylanwad cyffredinol

Y cyfan yw'r Cynllun Gweithredu Rhianta yw cynllun gweithredu. Nid yw'n strategaeth lawn a ni fwriadwyd hynny, er y gallai rhai rhanddeiliaid fod wedi dymuno am strategaeth lawnach.

Roedd cytundeb yn y dystiolaeth a gawsom fod y Cynllun ei hun wedi helpu i godi proffil cymorth ac addysg rhianta a'i fod wedi gweithredu fel sbardun i fwy o gymorth. Yn wir, yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:

“Support to parents is now embedded across a number of portfolios and parenting is being mainstreamed across a range of policies and programmes. The Parenting Action Plan has provided the catalyst for this.”¹⁶

Fodd bynnag, dengys tystiolaeth arall a gawsom nad oedd y Cynllun Gweithredu yn ddigon uchelgeisiol ac mai cyfyngedig, anghyson a darniog fu llwyddiant rhai o'r camau gweithredu, na chyflawnwyd llawer ohonynt neu ddim ond yn rhannol y'u cyflawnwyd. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn tynnu sylw at nifer o gamau a oedd eisoes i'w datblygu. Fel Pwyllgor, mae hyn yn ein siomi a gofynnwyd i'r Gweinidog pam fod rhai camau gweithredu mewn cynllun tair blynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2008 heb eu cyflawni o gwbl neu ddim ond yn rhannol.

Nid oedd y Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr o anghenion rhieni o ran cymorth ac ni chafodd ei werthuso yn ystod ei fodolaeth. Mae rhai elfennau wedi cael eu cynhyrchu – er enghraifft cyhoeddwyd a dosbarthwyd tri llyfryn – ond ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael o ran yr hyn a lwyddodd y Cynllun i'w gyflawni, megis canlyniadau a'r effaith a gafodd ar safonau rhianta.

Y flaenoriaeth a'r cydgysylltu ar ran y llywodraeth

Roeddem yn pryderu o glywed ei bod yn ymddangos na chafodd y Cynllun Gweithredu ei hyrwyddo ar y lefel uchaf o fewn llywodraeth Cymru ac nad oedd arweiniad clir i ddatblygu rhai o'r cynlluniau gweithredu a chydgyssylltu gwaith.

Dywedodd Lucy Aktar, Swyddog Datblygu Rhianta Plant yng Nghymru,

“We hoped that the Parenting Action Plan would help to achieve more co-ordination, but that, largely, has not happened.”¹⁷

Dywedodd nad oes cydgysylltiad yn aml hyd yn oed o fewn gwahanol adrannau llywodraeth Cymru, ac er bod yr adrannau'n gwneud “tameidiau” o waith rhianta nid oes unrhyw gydgysylltu rhwng yr adrannau.¹⁸ Ategwyd hyn gan Tony Ivens gyda'r enghraifft ganlynol:

¹⁶ Papur y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc CYP(3)-17-08 (t2), *Ymchwiliad i'r Cynllun Gweithredu Rhianta*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 27 Tachwedd 2007

¹⁷ Cofnod y Trafodion t6, 9 Hydref 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

¹⁸ Cofnod y Trafodion t20, 9 Hydref 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

“I would like the Assembly Government to ensure that this all comes under a single umbrella. Lucy just gave the example of social justice—we had lobbied, as part of the parenting action plan, for other programmes in addition to Incredible Years to be evaluated. Although everyone supported that view, there was no money in the pot to do it. Then, completely out of left field, we were told that Strengthening Families¹⁹ was being evaluated by the social justice department. The officials in DCELLS knew nothing about it; the left hand was not talking to the right hand.”²⁰

Ariannu

Un ystyriaeth allweddol a gyflwynodd y dystiolaeth oedd y diffyg adnoddau a roddwyd – gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol – i weithredu'r Cynllun. Dywedodd un o'r tystion bod gweithredu'r Cynllun Gweithredu Rhianta yn gyfyngedig ar lefel leol, oherwydd y cystadlu am adnoddau, ac nad yw cymorth rhianta yn wasanaeth y gellir ei weithredu'n effeithiol ar gyllideb fach.²¹ Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y diffyg mewn darpariaeth oherwydd y modd y targedir yr arian.

Dywedodd Tony Ivens wrth y Pwyllgor fod adborth anecdotaidd ar gymorth i rieni yn dangos bod gweithwyr proffesiynol ym maes rhianta yng Nghymru yn ystyried eu hunain yn gefndryd tlawd wrth gymharu â Lloegr.²² Dywedodd fod llawer o'r gweithwyr proffesiynol ym maes rhianta o'r farn bod llawer mwy o adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer cynorthwyo rhianta yn Lloegr na'r hyn sydd ar gael i gynorthwyo rhianta yng Nghymru.²³ Canfu Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru na fu unrhyw arian penodol i gynorthwyo datblygiadau rhianta yng Nghymru, ac i'r gwrthwyneb, cadarnhaodd yr Adolygiad o Wariant 2002, Gronfa Rhianta tair blynedd o £25 miliwn ar gyfer Lloegr (2003-06).²⁴

Mae llywodraeth Cymru wedi ariannu gwariant canolog o ran y Cynllun drwy gyllidebau a frigidorrwyd o gyfanswm y Gronfa Cymorth. Dengys gwariant a gofnodwyd yn erbyn y cyllidebau hyn bod llywodraeth Cymru wedi gwario £390,000 ar weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r Cynllun dros y tair blynedd hyd at fis Mawrth 2008, ond daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad:

“While some additional resources have been provided to increase support to parents, it is impossible to be precise about the overall level of expenditure on parenting support through local Cymorth funding.”²⁵

Ymateb llywodraeth Cymru i ni oedd bod llawer o'r darpariaethau yn y Cynllun Gweithredu Rhianta a oedd yn bosibl eu cyflwyno yn cael eu datblygu drwy

¹⁹ Nod y Rhaglen Cryfhau Teuluoedd yw lleihau a rhwystro camddefnyddio sylweddau a phroblemau ymddygiad eraill ymysg pobl ifanc, drwy helpu rhieni i wella eu sgiliau rhianta.

²⁰ Cofnod y Trafodion t21, 9 Hydref, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

²¹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth Teuluoedd, Tystiolaeth ysgrifenedig

²² Cofnod y Trafodion, t20, 9 Hydref 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

²³ Ibid, t18

²⁴ Swyddfa Archwilio Cymru (Hydref 2008) *Adolygiad o Gynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cynulliad Cymru*, para 48, t12

²⁵ Ibid. para 6, t4

raglenni y mae eisoes wedi clustnodi arian ar eu cyfer.²⁶ Er enghraifft, roedd gan Dechrau'n Deg elfen cymorth rhianta gwerth £1.7 miliwn yn 2007-08.²⁷

Darparu gwybodaeth

Er ein bod yn cytuno bod mwy o wybodaeth ar gael i rieni, mae'n anodd dweud pa mor effeithiol ac ystyrlon ydyw.

Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth i rieni a gofalgwyr drwy wasanaethau fel y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (arferai gael ei alw'n Wasanaethau Gwybodaeth i Blant), gyda llawer yn sicrhau manau lloeren mewn canolfannau plant integredig ac ysgolion uwchradd. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, disgrifiodd Cyngor Sir y Fflint enghreifftiau o waith a gyflawnwyd gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant, gan nodi:

“the CIS also distribute Easter and Summer Fun Booklets which incorporate information about activities for children and information to support parents such as top tips, parenting programmes, access to Parentline Plus. In addition the next development will be to utilise a text messaging alert system which will bring information about parenting directly to the attention of parents”.²⁸

Dyweddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig,

“the role of the CIS/FIS in Wales is crucial in ensuring that parents and carers know how to access services that are on offer in the local area. However many CIS/FIS lack the resources necessary to extend their services beyond their statutory duties, which were enhanced by the *Childcare Act 2006*.”²⁹

O fis Ebrill 2008, cafodd y dyraniad arian Cymorth a glustnodwyd i'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw.³⁰

Yn ein cyfarfod anffurfiol â rhieni ar 25 Chwefror 2009, canfuwyd nad yw'r rhan fwyaf o rieni yn ymwybodol o'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd na'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant. Deallwn ei bod yn fwriad gan lywodraeth Cymru lansio ymgyrch hysbysebu genedlaethol yn y dyfodol ar y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

Canfuwyd yn ein hymchwiliad hefyd bod angen profi ffyrdd gwahanol o gyfathrebu â rhieni, gan ystyried ffactorau fel lefelau llythrennedd, defnydd o dechnoleg a'r ffyrdd o gyfathrebu sydd orau ganddynt, fel y gall pob rhiant gael gafael ar gyngor a chymorth ystyrlon pan mae ei angen arnynt. Er enghraifft, wrth drafod y rhieni hyn, nododd Sara Vaughan o Home Start, sef sefydliad sy'n gweithio gyda theuluoedd anodd eu cyrraedd:

“not ringing helplines. We have set up some text-buddy schemes, where parents can text for help and support, which is working well.

²⁶ Cofnod y Trafodion, t20, 27 Tachwedd 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

²⁷ Swyddfa Archwilio Cymru (Hydref 2008) *Adolygiad o Gynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cynulliad Cymru*, para 50, t13

²⁸ Cyngor Sir y Fflint ar ran Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint, Tystiolaeth ysgrifenedig.

²⁹ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig

³⁰ Swyddfa Archwilio Cymru (Hydref 2008) *Adolygiad o Gynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cynulliad Cymru*, para 13

That might be a more appropriate way of supporting families than telephone helplines.”³¹

Credwn hefyd fod angen un ffynhonnell wybodaeth sy'n berthnasol i Gymru o ran y gwasanaethau sydd ar gael i rieni a bod y wybodaeth honno'n gysylltiedig â gwybodaeth berthnasol leol. Byddai wedi bod yn bosibl darparu hyn drwy sefydlu'r wefan Rhwydrhieni, a oedd yn un o gamau gweithredu'r Cynllun Gweithredu Rhianta, ond ni ddigwyddodd hyn. Fel y dywedodd Rhwydwaith Rhieni Caerffili, mae'r mater hwn wedi gwaethygu gan ei bod yn anodd gwybod a yw'r wybodaeth ar gael ar wefannau eraill, fel y Sefydliad Teulu a Rhianta a'r Llinell Rhieni a Mwy, sy'n berthnasol i Gymru. O ganlyniad, meddai Rhwydwaith Rhieni Caerffili:

“it can be difficult for organisations such as ours to get the information out there, even if it is not first-hand experience, and sharing information can be difficult because there is nothing available.”³²

Diffyg cyflawni pwyntiau gweithredu penodol

Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig a dderbyniwyd yn glir o ran pa agweddau ar y Cynllun Gweithredu a gyflawnwyd, pa rai nas cyflawnwyd a pha rai a gyflawnwyd yn rhannol.

Roedd yn ddefnyddiol cael y wybodaeth a dderbyniwyd ar ffurf tabl sy'n dangos i ba raddau y mae pob un o'r 10 cam gweithredu wedi cael eu cyflawni, yn ôl y dystiolaeth a gawsom. Caiff ymatebion y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ystyriaeth y Pwyllgor o bob cam gweithredu eu cynnwys yn y tabl hefyd.³³

Crynodeb o'r Camau Gweithredu	A yw wedi'i gyflawni ?	Manylion
1. Datblygu llinell gymorth ddwyieithog genedlaethol i rieni.	Nac ydyw	Dal yn ôl oherwydd anghydfod ynglŷn ag ariannu rhwng llywodraeth Cymru ac Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd San Steffan. Yn ein cyfarfod anffurfiol â grwpiau rhieni, mynegodd llawer o rieni gefnogaeth gref dros linell gymorth gyfrinachol, ddwyieithog, am ddim a gaiff ei hysbysebu'n eang a fyddai'n gallu eu cyfeirio at wasanaethau cymorth lleol i rieni, gan gynnwys gweithdai cyn-enedigol a rhwydweithiau rhieni. Pwysleisiwyd y dylai'r llinell gymorth gael ei hyrwyddo fel un heb stigma, a'r pwyslais arni

³¹ Cofnod y Trafodion t9, 11 Rhagfyr 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

³² Cofnod y trafodion t24, 9 Hydref 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

³³ Ymatebion a wnaed ym Mhapur y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc CYP(3)-17-08 (p2), *Ymchwiliad i'r Cynllun Gweithredu Rhianta*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 27 Tachwedd 2007

		<p>fel cymorth i rieni. Awgrymodd un rhiant hefyd y dylai'r llinell gymorth hon fod ar gael mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg.</p> <p>Ymateb y Gweinidog:</p> <p>“Mae'n amlwg bod angen sefydlu llinell gymorth ddwyieithog yng Nghymru ac rydym yn awyddus i weithredu hyn er mwyn cynorthwyo rhieni.</p> <p>Rwyf wedi nodi'r pryderon a fynegwyd gan amryw gyrrff a gallaf gadarnhau bod fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn edrych i weld sut y gallwn fynd yn ein blaen o ran hyn a hefyd i weld pa adnoddau a fydd yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.</p> <p>Mae trafodaethau â'r Adran Plant, Sgiliau a Theuluoedd yn mynd yn eu blaen er mwyn cael cyllid i gefnogi'r datblygiad hwn. Yn y cyfamser, mae Llinell Rhieni a Mwy (Parentline Plus) yn parhau i dderbyn galwadau o Gymru.”</p>
<p>2. Datblygu a dosbarthu cyfres o lyfrynnau ar gyfer pob rhiant newydd.</p>	<p>Ydyw</p>	<p>Cyhoeddwyd tri llyfryn ond cawsom beth tystiolaeth fod problemau wedi codi wrth eu dosbarthu, a rhai pobl yn holi sut i gael mwy o gofiau.</p> <p>Nid oedd llawer o'r bobl yn ein cyfarfod anffurfiol â rhieni yn gyfarwydd â'r llyfrynnau. Awgrymodd y rhieni y dylai'r llyfrynnau gael eu dosbarthu fel rhan o'r broses cyn-enedigol, ac y gallai llyfrynnau perthnasol gael eu rhoi i blant i ddod adref o'r ysgol. Dywedodd rhieni hefyd fod diffyg gwybodaeth ar sut i rieni drin pobl ifanc yn eu harddegau. Dywedodd un rhiant, “teenagers push boundaries, and parents don't know where to get help from.”³⁴ Awgrymodd un rhiant y dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r llyfrynnau gael eu gwahanu fel nad ydynt mor drwm ac anodd eu cario.</p> <p>Ymateb y Gweinidog:</p> <p>“Ein bwriad yw parhau i ddosbarthu'r llyfrynnau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn</p>

³⁴ Cyfarfod anffurfiol y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc â rhieni, 25/2/09

		<p>cyrraedd rhieni a'u bod yn derbyn cymorth.</p> <p>Gan fod y llyfrynnau hyn wedi cael eu hailbrentio y llynedd y maent bellach ar gael i bawb sy'n rhieni newydd am y ddwy flynedd nesaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw byddwn yn ymgynghori â'r rhai a dderbyniodd y llyfrynnau yn ogystal â'r gweithwyr proffesiynol a fu ynghlwm wrth y gwaith i drafod eu gwerth o ran dosbarthu mwy ohonynt."</p>
<p>3. Sefydlu gweithgor yn ystod hydref 2005 i ystyried adroddiad Cronfa Beth Johnson ar deidiau a neiniau a chynnig rhaglen weithredu fras.</p>	<p>Yn rhannol</p>	<p>Sefydlwyd gweithgor a wnaeth 17 o argymhellion, ond mae diffyg eglurdeb o ran a ydynt wedi'u gweithredu ac os hynny, sut.</p> <p>Ymateb y Gweinidog:</p> <p>"Mae yna rai materion sy'n mynd rhagddynt o hyd yn deillio o'n gwaith ar fod yn daid a nain ac argymhellion y Gweithgor ar Fod yn Daid a Nain. Dyma grynodedb o'r camau gweithredu hyn:</p> <p>Rydym yn argymhell cynnal arolwg o'r defnydd a wneir gan awdurdodau lleol o ofal gan deulu a chyfeillion, ac o'r trefniadau sy'n bodoli i ddarparu cymorth ariannol. Caiff hyn ei wneud drwy'r Mesur Plant a Phobl Ifanc sy'n cynnig darparu fframwaith ar gyfer gofal gan deulu a chyfeillion.</p> <p>Canllawiau i awdurdodau lleol i roi gwedd gliriach ar y defnydd o ofal gan deulu a chyfeillion, i sicrhau y cydymffurfir â'rgofynion statudol ac i sicrhau cydraddoldeb o ran triniaeth. Caiff hyn ei wneud drwy'r gwaith yn gysylltiedig â'r Mesur Plant a Phobl Ifanc.</p> <p>Argymhellwyd defnyddio'r pecyn cymorth a luniwyd gan y Grwp Hawliau'r Teulu. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ariannu cynhyrchu fersiwn Gymraeg o Lyfr Hawliau'r Teulu a'r pecyn cymorth sydd i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2009.</p> <p>Cydnabod y rôl sydd gan deidiau a neiniau i'w chwarae wrth gefnogi rhieni yn y canllawiau sy'n cael eu paratoi ar yr hyn y gellir ei wneud i gryfhau teuluoedd wrth</p>

		bontio'r cenedlaethau. Y bwriad yw datblygu'r canllawiau a'u cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2009.”
4. Ariannu rhaglen hyfforddiant i ehangu sgôp rhaglenni'r Blynyddoedd Rhyfeddol a chomisiynu'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) i lunio gwybodaeth am raglenni eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddefnyddir yng Nghymru sy'n gallu llywio penderfyniadau ar fuddsoddiad yn y dyfodol.	Yn rhannol	<p>Roedd rhai o'r bobl a ymatebodd yn holi a yw rhieni yn gweld manteision ehangu'r rhaglen. Mae sail dystiolaeth dda i'r Blynyddoedd Rhyfeddol, ond bu problemau yn y ddarpariaeth. Er enghraifft, canfu Swyddfa Archwilio Cymru bod canlyniadau'r Blynyddoedd Rhyfeddol yn glir gan fod pobl yn cael eu hyfforddi a deunyddiau hyfforddi'n cael eu prynu, ond nad yw llywodraeth Cymru wedi gwerthuso effaith yr hyfforddiant yn lleol.³⁵ Dywedodd NCH (o dan yr enw newydd Gweithredu Dros Blant) nad yw'r rhai sydd wedi cael hyfforddiant o dan y rhaglen hon 'bob amser wedi mynd ymlaen i ddarparu', ac and yw'n diwallu anghenion pob rhiant, yn arbennig y rhai anodd eu cyrraedd.³⁶</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol rhwng swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a SCIE ond ni fu unrhyw ddatblygiadau.</p> <p>Yn ein cyfarfod anffurfiol â rhieni, clywsom brofiadau cymysg o raglen y Blynyddoedd Rhyfeddol, gyda nifer o'r rhieni yn nodi bod llawer o'r deunyddiau a ddefnyddir yn edrych yn hen a'u bod yn fwy priodol yn ôl diwylliant i rieni yn yr Unol Daleithiau na Chymru. Roedd rhai o'r farn bod y technegau a ddysgwyd yn ddoniol, er bod eraill yn fwy cadarnhaol, gydag un rhiant yn nodi y dylai'r technegau a ddysgir gael eu defnyddio mewn ysgolion hefyd.</p> <p>Ymateb y Gweinidog:</p> <p>“Rydym yn parhau i roi cyllid i ymchwilio i raglenni rhianta a'u gwerthuso gan gydnabod yr angen am sylfaen gadarn o dystiolaeth all gael ei defnyddio i lywio datblygiadau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys:</p> <p><i>Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru</i> – bydd yn derbyn £100,000 dros dair blynedd i werthuso rhaglen ymyrraeth newydd ar gyfer</p>

³⁵ Swyddfa Archwilio Cymru (Hydref 2008) *Adolygiad o Gynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cynulliad Cymru*. para 56, t15

³⁶ NCH Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig

		<p>rhieni babanod a phlant bach o'u geni hyd at 36 mis oed sy'n hyrwyddo dulliau cadarnhaol o fod yn rhieni ac yn lleihau'r risg o weld plant yn datblygu problemau ymddygiadol ac emosiynol gan gynnwys anhwylder ymddygiad.</p> <p><i>Cysylltiadau Teuluol</i> - £100,000 dros dair blynedd tuag at y gost o werthuso Rhaglen Cysylltiadau Teuluol – Magu Plant. Mae'r gwerthusiad wedi'i gomisiynu ar y cyd gan dair ardal awdurdod lleol (Caerdydd, Casnewydd a Thor-faen) drwy eu Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Bydd y dystiolaeth a gasglwyd o ganlyniad i'r gwerthusiad yn llywio'r penderfyniad a all y rhaglen hon, sydd ar hyn o bryd yn cael ei gweithredu yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hyn, gael ei chynnwys ymysg y rhaglenni a gymeradwywyd o dan y rhaglen Dechrau'n Deg.</p> <p><i>Prifysgol Caerdydd</i> – Mae swm o £136,021 wedi'i ddyfarnu i Brifysgol Caerdydd dros dair blynedd i ymestyn yr ymchwil a wnaed gan Dr Gordon Harold ar effeithiau gwrthdaro rhwng rhieni ar blant. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn asesu pa mor effeithiol yw'r rhaglen addysg rhianta a bydd yn canolbwyntio ar effaith y berthynas rhwng gwahanol aelodau o'r teulu ar les emosiynol ac ymddygiadol plentyn yn ystod y cyfnod o drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.</p> <p>Rydym hefyd yn yr ail flwyddyn o werthuso Cymorth a Dechrau'n Deg gan gonsortiw dan arweiniad IPSOS, MORI a SQW. Un o'r themâu astudiaeth yn 2008-09 yw cyflwyno rhaglenni rhianta o dan adain Cymorth a Dechrau'n Deg.”</p>
<p>5. Cryfhau cyfranogiad rhieni yn y broses o gynllunio Partneriaethau Fframwaith o haf 2006.</p>	<p>Gwell ond darniog</p>	<p>Mae Canllaw Ymarfer wedi cael ei ddisbarthu, ond mae angen gwneud mwy o waith ar gyfranogiad rhieni.</p>

<p>6. Comisiynu gwaith ar ddechrau 2006 i lunio canllaw arfer da ar gyfer Partneriaethau ar gyfranogiad rhieni a'u grymuso.</p>	<p>Ydyw</p>	<p>Dosbarthwyd canllaw ymarfer ym mis Medi 2006 ond nid oedd dulliau o gyfleu sut roedd yr argymhellion yn cael eu gweithredu ac a oedd yr argymhellion yn cael eu gweithredu o gwbl.</p>
<p>7. Bydd gofyn i Bartneriaethau Fframwaith ystyried, fel rhan o'u gwaith cynllunio, anghenion rhieni a gofalwyr a sut y bydd asiantaethau yn cydweithio er mwyn eu diwallu, gan gynnwys y camau perthnasol a nodir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth.</p>	<p>Aneglur</p>	<p>Ymateb y Gweinidog i gyflawni camau gweithredu 5, 6 a 7</p> <p>“Caiff pwysigrwydd cael rhieni a gofalwyr i fod yn rhan o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol a'u gwaith o baratoi eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc ei bwysleisio yn ein dogfennau cyfarwyddyd, <i>Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau</i> (Awst 2006) a <i>Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau</i> (Medi 2007). Cyhoeddwyd hefyd <i>Cyfranogiad Rhieni: Canllawiau Ymarfer ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc</i> ym mis Medi 2006 yn rhan o'r cam gweithredu hwn.</p> <p>Mae tystiolaeth glir yng nghopiâu drafft y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori yn gynharach eleni fod y Cynllun Gweithredu Rhianta wedi llwyddo i godi proffil rhianta a sicrhau bod mwy o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i gefnogi rhieni yn lleol. Mae tystiolaeth hefyd fod y Partneriaethau yn llwyddo fwyfwy i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr wrth gynllunio ac adolygu eu gwasanaethau.</p> <p>Mae'r Cynlluniau drafft yn awgrymu bod gan dri chwarter y Partneriaethau naill ai Gynlluniau Gweithredu Rhianta yn eu lle neu eu bod wrthi yn eu datblygu. Nodir bod y chwarter sy'n weddill wedi nodi fel blaenoriaeth y bwriad i gynyddu lefel y cymorth a roddir i rieni yn yr ardal.</p> <p>Rhodddwyd adnoddau ychwanegol i gynyddu'r cymorth i rieni drwy gyllid o dan adain Cymorth yn lleol. Mae'r Cynlluniau yn dangos yn glir bod cyllid Cymorth a Dechrau'n Deg yn cael ei ddefnyddio at y pwrpas hwn.”</p>
<p>8. Awdurdodau Addysg Lleol a Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant i</p>	<p>Darniog</p>	<p>Mae treialon wedi cael eu cynnal ond mae'r darlun cyffredinol yn ddarniog ac mae angen</p>

<p>dreialu lloerennau Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac ysgolion bro, ynghyd â'r canolfannau plant integredig.</p> <p>(Erbyn hyn, mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant wedi cael eu henwi'n Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd</p>		<p>ei werthuso.</p> <p>Yn ein cyfarfod anffurfiol â rhieni, nid oedd y rhieni'n adnabod enw'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant na'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.</p> <p>Ymateb y Gweinidog:</p> <p>"Ym mis Hydref 2006 ysgrifennodd Llywodraeth y Cynulliad at bob Cyfarwyddwyr Addysg, pob Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Gwybodaeth Plant i wahodd Awdurdodau Addysg Lleol a'r Gwasanaethau Gwybodaeth Plant i dreialu canolfannau Gwasanaethau Gwybodaeth Plant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ar y cyd â'r ysgolion bro ac yn y canolfannau integredig newydd. Fe wnaethom ofyn am wybodaeth am ganolfannau sydd eisoes yn bod a gofyn i bob awdurdod lleol ystyried eu gallu ar y pryd ac yn y dyfodol i dreialu canolfannau o'r fath mewn nifer o wahanol leoliadau. Cawsom ymateb cadarnhaol a byddwn yn parhau i drafod gyda NAFIS y cyfle i fwrw ymlaen â hyn yng nghyd-destun yr ymgyrch farchnata.</p> <p>Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth addas ar gael yn ehangach i rieni. Bu Tîm Cyfranogiad APADGOS yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn codi eu proffil yng Nghymru. Canlyniad hyn fydd cynnal ymgyrch hysbysebu genedlaethol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch eu gwasanaethau. Y prif amcanion fydd datblygu gwefan genedlaethol a rhif ffôn cenedlaethol ac adolygu'r canllawiau gwybodaeth sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i rieni yn y llyfryn, <i>Dewis Gofal Plant</i>. Bydd cael un rhif ffôn yn sicrhau bod pobl sy'n galw yn cael eu rhoi drwodd yn uniongyrchol i'w canolfan Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd agosaf, yn dibynnu ar ble yn union y gwnaed yr alwad. Bydd hefyd yn hwyluso trefnu ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol heb orfod rhestru 22 o wahanol rifau ffôn.</p> <p>O ganlyniad i gynnal ymgyrch farchnata</p>
--	--	---

		ehangach a newid yr enw i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, ein nod yw cyrraedd y rhieni hynny nad oeddent yn gwybod am y gwasanaethau cyn hynny. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ac yn ail-werthuso'r camau nesaf i'w cymryd. “
9. Parhau i gydweithio ag Awdurdodau Addysg Lleol, Estyn a chyrff llywodraethu ysgolion i hybu cyfranogiad rhieni mewn ysgolion.	Darniog	<p>Nid yw llywodraeth Cymru wedi canfod arweinydd i ddatblygu hyn ac nid oedd rhai o'r ymatebwyr yn ymwybodol o unrhyw gynnydd. Er bod ysgolion hefyd yn dechrau ymgysylltu â rhieni a gofalwyr, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nad oedd unrhyw arweiniad ar y mater hwn ar hyn o bryd.</p> <p>Ymateb y Gweinidog:</p> <p>“Er mai prin yw'r hyn a wnaed hyd yma ynghylch y cam gweithredu hwn, mae'r Cynllun Gweithredu Rhianta wedi codi proffil rhianta o fewn polisi ysgolion ac mae mwy o sylw yn cael ei roi iddo.”</p>
10. Datblygu Rhwydrhieni ymhellach i sicrhau ei bod yn addas i bob rhiant.	Nac ydyw	<p>Daeth y wefan i ben.</p> <p>Roedd rhai o'r rhieni yn ein cyfarfod anffurfiol yn cwestiynu beth yw gwerth cyffredinol gwefan gyda gwybodaeth i rieni. Dywedodd un rhiant: “I'm not being funny, but we don't all have computers.”³⁷</p> <p>Dywedodd rhiant arall, “when you've got a family crisis and things are kicking off, the last thing that people want to do is to log on to a computer and search for information.”³⁸</p> <p>Roedd rhieni eraill, fodd bynnag, yn arbennig tadau, yn cefnogi gwefan benodol i ddarparu gwybodaeth am sgiliau rhianta ar gyfer rhieni, a'u cysylltu â gwybodaeth am wasanaethau lleol.</p> <p>Ymateb y Gweinidog:</p> <p>“Mae gwaith ar droed ar hyn o bryd i roi gwybodaeth i rieni ar dudalennau Addysg gwefan Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r deunydd blaenorol oedd yn berthnasol i rieni yn cael ei ailysgrifennu ar hyn o bryd a'r nod yw cwblhau'r deunydd newydd i'w</p>

³⁷ Cyfarfod anffurfiol Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc â rhieni , 25/02/09

³⁸ Ibid.

		ychwanegu erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008. Bydd y cynnwys yn cael ei ymestyn drwy dynnu ar ffynonellau ehangach o wybodaeth ar draws Llywodraeth y Cynulliad.”
--	--	--

DATBLYGU GWAITH RHIANTA

Mae ein tystiolaeth yn tynnu sylw at nifer o feysydd lle y gellir datblygu gwaith rhianta fwyaf effeithiol.

Bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth na chyfeirir atynt yn y Cynllun Gweithredu Rhianta

Yn ystod ein hymchwiliad, roedd canfod bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth gwasanaeth yn peri pryder i ni. Ni chynhaliwyd unrhyw waith mapio Cymru gyfan na dadansoddiad o anghenion i nodi'r bylchau yn y gwasanaeth a nodi pa wasanaethau sydd ar gael a lle.

Rydym wedi cael tystiolaeth gyson yn nodi bylchau sylweddol yn y gwasanaeth nas ystyriwyd fel rhan o'r Cynllun Gweitherdu Rhianta. Mae hyn yn cynnwys cymorth i: dadau; rhieni plant hŷn/plant yn eu harddegau; rhieni a rhieni sydd â phartneriaid yn y carchar neu o dan warchodaeth; tadau sydd ar raglenni cyn-rhyddhau o'r carchar; rhieni ifanc; rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau; rhieni mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig; rhieni anabl neu rieni plant anabl.

Er enghraifft, nid oedd y Cynllun yn nodi'n union sut y byddai rhieni anabl neu rieni plant anabl yn cael eu cynorthwyo, felly nid oedd yn syndod i ni ganfod "nad oedd tystiolaeth" fod y Cynllun Gweithredu: wedi cael unrhyw effaith ar anghenion cymorth rhieni plant anabl.⁴¹ Yn yr un modd, dywedodd Advocacy Action Wales a Mencap:

"there is no evidence that the Parenting Action Plan has had a significant positive impact on parents with learning disabilities."⁴²

Enghreifftiau o Arfer Da:

Gwasanaethau Ataliol

"Mae Conwy wedi ennill gwobr Rhagoriaeth Cymru am wasanaethau ataliol a oedd yn cynnwys tîm cymorth rhieni yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol sy'n rhoi cymorth i'r teuluoedd mwyaf bregus ac sy'n seiliedig ar gymorth mentora a chymorth ymarferol; DARRT, sy'n cynorthwyo rhieni i wella rhianta drwy reoli eu caethiwed a chynnig cymorth 24 awr os oes angen; a'r grŵp Tigers, sef rhaglen rianta i rieni pobl ifanc ac sy'n ymgysylltu'n dda â thadau yn ogystal â mamau. Mae Conwy hefyd yn cynnal cynllun Caring Dads ar gyfer achosion o gam-drin domestig a Butterflies, sy'n cynnig yr un cymorth i famau."³⁹

Llyfryn Gwrthfwlio

"Un elfen o etifeddiaeth yr ymgyrch yn Wreccsam yw llunio'r llyfryn 'Top tips for Parents on bullying'. Byddai'n bosibl ei ddefnyddio fel enghraifft o arfer da ledled Cymru."⁴⁰

³⁹ Y Grŵp Gwasanaethau Plant (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol), Tystiolaeth ysgrifenedig

⁴⁰ NSPCC Cymru/Wales, Tystiolaeth ysgrifenedig

⁴¹ Plant Anabl yn Cyfri Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig

⁴² Advocacy Action Wales a Mencap Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig

Cyfeiriodd y dystiolaeth ysgrifenedig hefyd at yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael mewn ardaloedd gwledig.

Gwnaeth y Cynllun Gweithredu Rhianta argymhelliad penodol am deidiau a neiniau gan eu bod yn aml yn rhoi cymorth rhianta pwysig. Fodd bynnag, er i weithgor gael ei sefydlu i ystyried Adroddiad Sefydliad Beth Johnson ar deidiau a neiniau, a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion, nid yw'n glir a yw argymhellion y gweithgor yn cael eu gweithredu. Fel y dywedodd Angela Burns AC, aelod o'r Pwyllgor: "what is the point of setting up the working group if you are going to take no notice of it?"⁴³

Roedd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn cydnabod fod gwaith i'w wneud eto o ran rhoi cymorth i deidiau a neiniau.

Goresgyn y rhwystrau i rieni allu defnyddio gwybodaeth a gwasanaethau

Cawsom lawer o dystiolaeth am y rhwystrau a all atal rhieni a gofalmwyr rhag defnyddio'r wybodaeth, y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Gwelsom nad yw rhieni bob amser yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt, na sut i'w defnyddio a bod ffactorau fel diffyg sgiliau ym maes llythrennedd neu anabledau dysgu yn gallu rhwystro rhieni rhag ceisio cael gafael ar gymorth, yn arbennig os nad yw'r wybodaeth ar gael mewn fformatau addas.

Clywsom am rai o'r anawsterau ymarferol sy'n wynebu rhieni wrth geisio cael gafael ar wasanaethau, fel costau gofal plant ac mae diffyg capasiti mewn cefnogaeth crèche i gyd-fynd â grwpiau rhieni. Clywsom hefyd y gall costau llogi ystafelloedd, cinio, lluniaeth, trafnidiaeth a gofal plant fod yn rhwystr sylweddol o ran darparu gwasanaethau.

Mae lleoliadau'r digwyddiadau cymorth i rieni hefyd yn bwysig yng nghydestun lleddfu'r ofn a'r stigma a hwyluso gwell mynediad. Dengys y dystiolaeth a gawsom fod potensial i ddatblygu gwasanaethau i rieni mewn ysgolion, gydag arian ar gael i gefnogi hyn drwy grant yr Ysgolion Bro. Byddai angen i'r gweithgareddau hyn gael cefnogaeth y Pennaeth a'r corff llywodraethu ynghyd â lle priodol i weithio gydag oedolion. Fod bynnag, credwn fod angen defnyddio amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol i ddarparu gwasanaethau i rieni, gan ei bod yn bosibl i rai rhieni fod wedi cael profiadau anhapus yn yr ysgol yn y gorffennol ac y gallai hyn eu rhwystro rhag defnyddio adeiladau ysgolion. Ni ddylid ystyried ysgolion fel yr unig opsiwn a dylid defnyddio adeiladau eraill hefyd i gynorthwyo rhieni.

Mae rhai materion penodol sy'n ymwneud â chanfyddiadau o ran cymorth rhianta a gall hyn rwystro rhai grwpiau arbennig o rieni rhag defnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae gwahaniaeth i'w gael o ran rhyw'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau er bod modelau da ar gael o weithio gyda thadau. Mae llawer o dadau yn credu mai ar gyfer mamau y targedir y gwasanaethau, yn hytrach na'r ddau riant, a bod y gwasanaethau yn 'rhy fenywaidd'. Er enghraifft, dywedodd Tony Ivens wrthym fod rhaglen y

⁴³ Cofnod y Trafodion t9, 9 Hydref 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Blynyddoedd Rhyfeddol wedi cael ei gwerthuso fel un sy'n effeithiol gyda mamau, ond nad oes data o ran pa mor effeithiol yw gyda thadau.

Materion yn ymwneud â'r gweithlu

Mae'r mater o ryw'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hefyd yn berthnasol i realiti'r sefyllfa gan mai menywod yw mwyafrif y gweithlu gofal plant. Ni wnaeth y Cynllun Gweithredu Rhianta fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu na natur fenywaidd gwaith gofal plant a'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â hynny. Gan mai menywod yw dros 99% o'r bobl sy'n gweithio ym maes gofal plant, clywsom gan ein tystion mai barn llawer o bobl yw nad swydd i ddynion yw gofal plant.⁴⁴

Credwn y dylid gwneud mwy o waith i archwilio sut y gellir annog dynion yn ogystal â menywod i weithio ym maes gofal plant a bydd hyn yn arwain at yr angen am well mynediad i hyfforddiant a chydabyddiaeth.

Dim stigma a gwasanaethau cyffredinol

Roedd ein holl dystion yn cytuno â gwerth dim stigma a gwasanaethau cyffredinol. Dangosodd y dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom nad oedd rhai rhieni am ofyn am gymorth rhianta, am fod cywilydd, neu ofn, arnynt. Er enghraifft, clywsom fod ofn ar rai rhieni y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymyrryd pe baent yn ceisio gofyn am help. Yn ein cyfarfod anffurfiol â rhieni ar 25 Chwefror 2009, disgrifiodd y rhieni brofiadau cymysg o weithio gydag ymwelwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gyda llawer yn cwyno eu bod yn cael eu beirniadau yn hytrach na'u cynorthwyo.⁴⁵ Mynegwyd pryderon hefyd nad yw rhai ymwelwyr iechyd yn cyfeirio rhieni'n effeithiol at wasanaethau cymorth lleol, fel Home Start. Dywedodd rhai rhieni hefyd eu bod yn gwybod am rieni eraill a oedd ofn sôn am broblemau (fel iselder neu gam-drin domestig) wrth wasanaethau swyddogol (fel meddygon, yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol) am fod ofn arnynt na fyddai'r wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn mynd â'u plant oddi arnynt.

Dywedodd rhieni eraill – yn arbennig yn ystod ymweliad y rapporteur â Sir y Fflint ar 2 Mawrth – bod wedi bod ofn arnynt gyfaddef eu bod yn wynebu problemau, fel iselder ar ôl geni, hyd yn oed i'w teuluoedd eu hunain am nad oeddynt am gael eu hystyried yn "fethiant" fel rhieni. Awgrymwyd y gallai tadau ei chael yn anodd gofyn am gymorth, yn arbennig o ran materion fel cefnogi'r wraig/partner i rianta, neu manteisio'n llawn ar yr amser prin sydd ganddynt weithiau gyda'u plant.

Clywsom hefyd fod llawer o rieni yn teimlo bod gweithio gyda sefydliadau o'r sector gwirfoddol yn llai o stigma, gydag un rhiant yn dweud mai Barnardos

⁴⁴ Dangosodd gwaith mapio gan Gyngor Gofal Cymru fod 99 y cant o'r gweithlu gofal plant yn fenywod. Cyngor Gofal Cymru, Cwmpasu a Mapio Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gwasanaethau Plant yng Nghymru, t25

⁴⁵ Cyfarfod anffurfiol y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc â rhieni, 25/2/09

yw ei hachubiaeth.⁴⁶ Cyfeiriwyd at y prosiectau On Track fel tystiolaeth bod cymorth i rieni yn effeithiol pan ddarperir amrywiaeth o wasanaethau cyffredinol a phenodol i ddiwallu anghenion unigol rhieni a phlant.⁴⁷

Fodd bynnag, dywedodd llawer o dystion nad oedd y ddarpariaeth gwasanaeth bresennol i rieni yn seiliedig ar system gyffredinol, ond ei bod wedi ei thargedu ar gyfer ardaloedd daearyddol penodol o amddifadedd. Clywsom y gall rhai rhieni deimlo eu bod wedi'u cau allan gan mai dim ond os ydych yn byw mewn ardaloedd penodol y mae rhai gwasanaethau ar gael. Roedd llawer o dystion yn bryderus na allai rhieni plant sydd â phroblemau ymddygiad gael cymorth gan y rhaglen Dechrau'n Deg gan mai dim ond mewn rhai ardaloedd daearyddol y mae gwasanaethau Dechrau'n Deg ar gael. Roedd y dystion hyn hefyd yn pryderu mai ychydig iawn o wasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo rhieni plant oedran cynradd neu blant yn eu harddegau. Dywedodd un rhiant wrthym yr hoffai gael cyfleuster canolog ym mhob cymuned leol, gyda manau chwarae priodol i blant, er mwyn hwyluso cyfarfodydd anffurfiol o grwpiau o rieni.

Enghreifftiau o Arfer Da:

Sir Gaerfyrddin – rhwydwaith o Ganolfannau Teulu

“In conjunction with Plant Dewi and local groups, a network of 12 Family Centres have been developed across the County that offer support and advice to families. The family centres are in local authority owned housing so they are placed exactly where the families are living including in more rural areas.

They are also small which is more practical when the population is small and also reduces fuel bills etc. A range of activities and courses are provided for the children to help them develop socially, emotionally and academically.

Support, advice and courses are also provided for their parents. There are also regular outreach groups for parents and their children, which are held in schools and community centres in the vicinity of the family centre.”⁴⁸

Gwell cydgysylltu strategol o ran rhianta yn genedlaethol ac yn lleol

Mae angen cydgysylltu cymorth rhianta yn strategol yn well. Mewn tystiolaeth i'n Pwyllgor, cyfeiriodd y Gweinidog at swyddogaeth Is-bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cabinet fel y fforwm a ddefnyddiwyd i asesu a monitro'r Cynllun Gweithredu Rhianta oherwydd cyfrifoldebau gweinidogol. Fodd bynnag, canfu ein tystiolaeth bod angen cysylltiadau cryfach rhwng gwahanol adrannau'r Llywodraeth sy'n ymdrin â rhianta. Fel y dywedodd Eleanor Burnham AC, cyn-aelod o'r Pwyllgor, byddai cydgysylltu'r ffordd o weithio yn galluogi

⁴⁶ Ibid

⁴⁷ Sefydlwyd 24 o brosiectau On Track yn wreiddiol ar draws y DU yn y flwyddyn 2000 fel rhan o brosiect ymchwil cenedlaethol, i weithio gyda phlant a oedd mewn perygl o fod yn droseddwr yn ddiweddarach yn eu bywydau. Fodd bynnag, mae'r rhai yng Nghymru wedi cael eu hymestyn bellach, i gynnig gwasanaethau, cymorth ac arbenigedd i'r holl gymuned i sicrhau eu bod yn manteisio ar bob cyfle mewn bywyd a gaiff eu cynnig iddynt. O'r holl brosiectau a sefydlwyd ledled y DU, y mwyaf effeithiol yw'r rhai sy'n darparu cymorth prif ffrwd a chymorth penodol ar gyfer pobl ifanc.

⁴⁸ Plant yng Nghymru, Tystiolaeth ysgrifenedig

gwasanaethau rhianta i “work smarter and much more effectively and probably reduce costs as well as raise effectiveness.”⁴⁹

Yn lleol, dywedodd CLILC a Grŵp Gwasanaeth Plant CCAC/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc mewn sefyllfa dda i ddwyn ynghyd bolisiau sy'n ymwneud â rhianta. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd swyddog o lywodraeth Cymru:

“Critical to us is the role of the children and young people’s plans in taking a lead on parenting action locally. Although the final plans are just coming in, the evidence from the draft plans is that the majority—three quarters—of children and young people’s partnerships already had a parenting strategy in place or proposed to develop one as a priority. We still need to look at the children and young people’s plans in their final versions in detail, but they should provide us with a good set of evidence of the actions that have been planned locally. They should also give officials an opportunity to monitor progress on those actions over time as well as an opportunity to disseminate examples of good practice.”⁵⁰

Fodd bynnag, clywsom hefyd y gall ymddangos ar adegau fel pe bai gwasanaethau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd ac mai ychydig iawn o strategaeth sydd wedi ei chydgysylltu rhwng y darparwyr gwasanaethau, awdurdodau lleol a llywodraeth Cymru.

Dywedodd Sara Vaughan o Home Start wrthym hefyd ei bod yn pryderu fod llywodraethau lleol yng Nghymru yn symud tuag at dendro a chaffael, sy'n golygu bod cynlluniau fel Home Start bellach yn cystadlu drwy dendro am eu gwasanaethau. Dywedodd fod prosesau o'r fath yn golygu bod rheolwyr Home Start yn treulio amser ac egni arnynt, ac “it is also taking the manager’s eye off the work... they are worrying about their future funding in a way that they have not had to worry for some years.”⁵¹

Pan fydd gwasanaethau rhianta yn darparu cymorth o safon i awdurdodau, credwn y dylid sicrhau posibilrwydd gwirioneddol y caiff eu contractau eu hymestyn, heb orfod mynd drwy broses dendro, er mwyn annog y gwasanaethau i barhau i ddatblygu a gwella.

Dywedodd Sara Vaughan wrthym hefyd “there are different limits on the competitive tendering.”⁵² Pan fydd prosesau tendro cystadleuol yn cael eu defnyddio, credwn y dylid sicrhau cysondeb rhesymol rhwng cyfyngiadau tendrau awdurdodau lleol.

⁴⁹ Cofnod y Trafodion t21, 9 Hydref 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁵⁰ Cofnod y Trafodion t17, 27 Tachwedd 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁵¹ Cofnod y Trafodion, t5, 11 Rhagfyr 2008. Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁵² Ibid, t6

Engbreiffiau o Arfer Da

Rhwydweithiau Rhieni

“In Caerphilly, Neath and Cardiff there are formalised Parent Networks which can help develop parents’ involvement in services and a formal mechanism for consultation. The Parent Network in Caerphilly has a full time Project Co-ordinator in post. Parents are actively invited to sit on local planning groups relating to children and families. Parents’ views are fed to and from these meetings, with support of the Project Co-ordinator. The Network meets approximately once every six weeks. Issues that are relevant to parenting in Caerphilly are discussed, and all parents are encouraged to have their say. Guest Speakers are also invited to come along to these meetings to inform parents of services and new initiatives that are relevant to them.”⁵³

Cydgysylltydd Cymorth i Rieni

“Locally we have employed a parenting support coordinator for about 8 years. The purpose of the post is to coordinate parenting support activity across the authority and was developed following an audit of RCT parenting support carried out in 1999, which demonstrated over 100 organisations and individuals were providing parenting support in an ad hoc fashion with no one agency taking lead responsibility. Our aim is to provide some quality control mechanisms and to ensure provision is more targeted.”⁵⁴

Hyrwyddo rhianta cadarnhaol

Dywedodd ymgyrch ‘Sdim Curo Plant! Cymru wrthym y bu rhai agweddau cadarnhaol i’r Cynllun Gweithredu Rhianta, ond roedd o’r farn ei fod wedi colli’r cyfle i roi conglfeini allweddol yn eu lle i gynorthwyo rhianta cadarnhaol a hwyluso newid diwylliannol o ddisgyblaeth ddi-drais. Nid oedd Grŵp Llywio Cynllun Gweithredu Rhianta, a oedd yn cynnwys ‘Sdim Curo Plant yn gallu ymgymryd â’r rôl o lywio strategaeth addysg gyhoeddus yn ymwneud â cheryddu plant yn gorfforol, am nad oedd yr adnoddau ganddynt i weithredu’r cynllun, na datblygu a gweithredu strategaeth addysg gyhoeddus.

Dywedodd Anne Crowley, a oedd yn cynrychioli’r ymgyrch ‘Sdim Curo Plant:

“The Assembly Government and the National Assembly have taken a good, positive stance as far as we are concerned on the issue of equal protection, and stated that they want to concentrate on what they can do, rather than on what they cannot, which is great. However, on promoting positive parenting and supporting parents to develop alternative ways of disciplining, they are not doing as much as they should be.”⁵⁵

⁵³ Plant yng Nghymru, Tystiolaeth ysgrifenedig.

⁵⁴ Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Tystiolaeth ysgrifenedig.

⁵⁵ Cofnod y Trafodion t9, 9 Hydref 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Dyweddodd Simon Jones, a oedd hefyd yn cynrychioli'r ymgyrch 'Sdim Curo Plant, wrthym fod diwedd cyfnod y Cynllun Gweithredu yn peri cryn bryder a'u bod:

“we are kind of left hanging; there is nothing to replace it. Therefore, the question is where do we go from here, and how will the Welsh Assembly Government make that commitment to positive parenting and equal protection for children and young people a reality when we currently do not have a strategy.”⁵⁶

Dyweddodd Anne Crowley:

“We would like, within any new action plan, a specific point about communicating public education, which I do not think has to cost that much. There is much more that the Assembly could do across all departments and divisions to support parents in general and to behave in particular ways. It would cost some money, but I do not think that it would be an awful lot.”⁵⁷

Rhaid i ni hyrwyddo, cyfathrebu a darparu cymorth ar gyfer rhianta cadarnhaol a rhaid i ffyrdd amgen o ddisgyblu fod yn rhan annatod o ddatblygu gwaith rhianta.

⁵⁶ Ibid, t8

⁵⁷ Ibid, t9

CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Arweiniad i ddarparu

Nid yw cymorth rhianta wedi cael digon o flaenoriaeth yn ein barn ni.

Mae amrywiol asiantaethau yn gwneud llawer o waith da ym maes rhianta yn lleol. Fodd bynnag, nid oes gennym strategaeth genedlaethol gydlynol ar draws gwahanol adrannau'r llywodraethi gydgysylltu ac i ddwyn ynghyd a datblygu gwaith rhianta.

Mae'r flaenoriaeth a roddir gan awdurdodau lleol i rianta yn hanfodol, gan mai barn llywodraeth Cymru yw mai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, a'u Cynlluniau perthnasol, yw'r offeryn allweddol ar gyfer darpariaeth. Mae angen prif ffrydio materion rhianta fwy ar draws adrannau a meysydd polisi llywodraeth Cymru. Rhaid i hyn ddigwydd hefyd yn yr awdurdodau lleol. Byddai hyn yn dangos gwerthfawrogiad o rianta da yng Nghymru.

Er mwyn hybu rhianta yng Nghymru, credwn y dylai llywodraeth Cymru benodi ffigur uwch i gydlynu cymorth rhianta. Ni fyddai'n was sifil, nac yn un o Weinidogion y Llywodraeth, ond byddai'n cydweithio â llywodraeth Cymru. Credwn y dylai'r swydd gael ei galw'n 'hyrwyddwr rhianta.'

ARGYMHELLIAD 1

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru benodi 'hyrwyddwr rhianta' i wneud y canlynol:

- codi proffil rhianta
- sicrhau arweiniad cryfach a chydlynu gwell rhwng adrannau'r llywodraeth
- cael gwared â'r stigma sy'n gysylltiedig â chais gan rieni am gymorth a chyngor
- llunio 'Brand Rhianta Cenedlaethol' cydnabyddedig ar gyfer yr holl weithgareddau a gynhelir i gynorthwyo rhieni, gan gynnwys llinell gymorth genedlaethol, ddwyieithog i rieni, gwefan genedlaethol annibynnol gyda chyngor i rieni mewn partneriaeth â sefydliadau'r sector gwirfoddol, ac ymgyrch wybodaeth rhianta gadarnhaol. Mae Galw lechyd Cymru yn darparu model ar gyfer y math hwn o frandio.

Camau gweithredu o'r Cynllun Gweithredu Rhianta nas cyflawnwyd

Roedd y dystiolaeth a gawsom yn dangos yn glir mai dim ond yn rhannol y cyflawnwyd rhai elfennau o'r Cynllun Gweithredu Rhianta ac na chyflawnwyd rhai o gwbl. Daeth y Cynllun i ben ym mis Mawrth 2008, ond ni chafwyd eglurhad gan lywodraeth Cymru o ran pa gamau gweithredu y byddant yn parhau i weithio arnynt, a pha rai y credir nad oes eu hangen bellach am fod amser wedi eu trechu.

Credwn fod angen mynd i'r afael â nifer o'r camau gweithredu hyn ar frys. Er enghraifft, yn ein cyfarfodydd anffurfiol â rhieni, clywsom y byddai llinell gymorth ddwyieithog i rieni yn werthfawr. Byddai angen iddi fod ar gael i rieni 24 awr y dydd, am ddim ac yn gyfrinachol. Clywsom hefyd y byddai angen hyrwyddo'r llinell gymorth hon yn dda ac y dylai roi gwybodaeth i rieni am wasanaethau rhianta – gan gynnwys y rhai a gaiff eu cynnal gan y sector gwirfoddol – yn eu hardal hwy.

Awgrymodd nifer o rieni y dylai'r llinell gymorth gael ei datblygu a'i gweithredu mewn partneriaeth gan y gallai rhieni deimlo stigma wrth ffonio llinell gymorth swyddogol y llywodraeth, ac na fyddai ganddynt y ffydd y byddai'r wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol. I'r gwrthwyneb, roedd barn y byddai rhieni'n teimlo'n fwy hyderus wrth ffonio llinell gymorth a gâi ei staffio gan bobl sy'n gweithio ar ran un o sefydliadau'r sector gwirfoddol, sydd â phrofiad eu hunain fel rhieni.

Yn yr un modd, credwn y dylai llywodraeth Cymru sefydlu gwefan annibynnol, gyda gwybodaeth i rieni am sgiliau rhianta ac a fyddai'n gallu cysylltu rhieni â gwybodaeth am wasanaethau sydd ar gael iddynt yn lleol. Dywedodd llywodraeth Cymru wrthym y bydd cyngor a gwybodaeth am wasanaethau rhianta ar gael fel rhan o brif wefan llywodraeth Cymru, fel rhan o dudalennau rhyngwyd yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Nid ydym yn glir eto sut y bydd y tudalennau rhyngwyd hyn yn cael eu hysbysebu a'u hyrwyddo ac rydym yn pryderu na fydd rhieni pryderus yn ystyried chwilio am wybodaeth ar y wefan hon.

Credwn fod galluogi rhieni i ddefnyddio un porthol cyffredinol ar gyfer gwybodaeth sy'n benodol i Gymru yn werthfawr iawn ond nid ydym yn sicr a fyddai datblygu gwefan llywodraeth Cymru ei hun yn effeithiol o ran cyflawni'r nod o sicrhau gwell gwybodaeth a mwy o wybodaeth i rieni. Fel Cadeirydd y Pwyllgor, dywedodd Helen Mary Jones AC:

“if I were a parent who was having trouble with my child's behaviour, the Government's website would not be the first place that I would go to look for advice”.⁵⁸

Rydym yn cydnabod, hefyd, fel y soniodd Sara Vaughan o Home Start, nad oes cyfrifiadur gan lawer o deuluoedd anodd eu cyrraedd. Felly credwn y dylai llywodraeth Cymru sefydlu gwefan benodol gyda gwybodaeth am sgiliau rhianta ar gyfer rhieni, ond os yw'r arian yn brin, credwn y byddai hyn yn llai o flaenoriaeth na sefydlu llinell gymorth ddwyieithog ar gyfer rhieni.

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, t19, 27 Tachwedd 2008, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

I gloi, credwn y dylai llywodraeth Cymru ystyried sut mae am gwblhau'r camau gweithredu nas cwblhawyd yn y Cynllun, ac os nad yw'n bwriadu datblygu'r camau gweithredu, dylid egluro'r rhesymau am hyn yn glir.

ARGYMHELLIAD 2

2.1 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddweud a oes unrhyw gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni yn y Cynllun Gweithredu Rhianta gwreiddiol nad yw'n bwriadu ymdrin â hwy, a rhoi rhesymau am hynny.

2.2 O ran y camau gweithredu hynny y bwriada'r llywodraeth eu datblygu o'r Cynllun Gweithredu Rhianta gwreiddiol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lunio amserlen glir ar gyfer eu cwblhau. Dylid, yn bennaf, gynnwys y canlynol:

- Llinell gymorth rhianta genedlaethol, gyfrinachol, ddwyieithog 24 awr, am ddim a gaiff ei hysbysebu'n dda, ei hyrwyddo'n gadarnhaol ac a ddatblygir mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol. Dylai'r gwasanaeth hwn fod yn gyfrinachol. Dylai allu rhoi gwybodaeth i rieni am wasanaethau rhianta lleol a dylai, ar gais rhiant, allu cyfeirio rhieni at wasanaeth penodol. Dylai'r llinell gymorth ddywyieithog gael ei brandio â'r brand rhianta cenedlaethol.
- Dosbarthu llyfrynnau rhianta a luniwyd drwy'r Cynllun Gweithredu Rhianta (gan gynnwys "O Amser Brecwast i Amser Gwely", "Ymddygiad Dros Ben Llestri mewn Plant Dan Ddeg" a "Help Wrth Law") drwy'r broses gynenedigol ac ar ddiwrnod cyntaf y plentyn yn yr ysgol. Dylai llyfrynnau gael eu brandio â'r brand rhianta cenedlaethol.
- Gwefan benodol, annibynnol, nad yw'n rhan o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda gwybodaeth am sgiliau rhianta ar gyfer rhieni. Dylai'r wefan hon gynnwys rhif ffôn y llinell gymorth rhianta ddwyieithog. Dylai gynnwys gwybodaeth am wasanaethau rhianta lleol. Dylai gynnwys cyfeiriadau syml heb i ddefnyddwyr orfod mynd drwy nifer o dudalenau i gael gwybodaeth. Dylai gael ei brandio â'r brand rhianta cenedlaethol.

Y dyfodol

O'r dystiolaeth a gawsom, yn ogystal â mynd i'r afael â champau gweithredu gwreiddiol y Cynllun Gweithredu Rhianta, credwn y dylid llunio strategaeth rianta gyffredinol ar gyfer Cymru a ddylai gynnwys grwpiau o rieni na chawsant eu hystyried yn y Cynllun Gweithredu Rhianta gwreiddiol. Credwn y dylai'r strategaeth hon, ynghyd â Chynllun Gweithredu newydd fod yn fwy uchelgeisiol a chael eu hariannu'n llawn ac yn briodol. Dylid nodi'r canlyniadau a'r rhaglenni a ddisgwylir yn glir; gan nodi amserlen ar gyfer pob cam/argymhelliad a chyfrifoldeb/atebolrwydd. Dylid eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd.

ARGYMHELLIAD 3

3.1 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lunio Strategaeth Rianta gyffredinol a Chynllun Gweithredu Rhianta newydd.

3.2 Dylai'r Cynllun Gweithredu Rhianta newydd ymgorffori'r camau nas cwblhawyd yn y Cynllun Gweithredu Rhianta gwreiddiol (gweler Argymhelliad 2).

3.3 Dylai'r strategaeth a'r Cynllun Gweithredu newydd hefyd ystyried polisïau newydd er mwyn dwyn ynghyd bob agwedd ar rianta.

3.4 Dylai'r Cynllun Gweithredu newydd hefyd nodi camau gweithredu penodol er mwyn cynorthwyo tadau; teidiau a neiniau; rhieni plant hŷn/plant yn eu harddegau; rhieni anabl; rhieni plant sydd ag anableddau; rhieni a phartneriaid rhieni sydd yn y carchar ac o dan warchodaeth; rhieni ifanc; rhieni sy'n gysylltiedig â cham-ddefnyddio sylweddau; rhieni o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Dylai hefyd gynnwys rhieni maeth lle y bo'n briodol.

Ariannu

Credwn fod angen i lywodraeth Cymru benderfynu a oes angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r camau nas cyflawnwyd ynghyd ag unrhyw gamau newydd. Er enghraifft, cawsom ar ddeall fod llywodraeth Cymru mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU i ddarparu llinell gymorth ddwyieithog. Cefnogwn lywodraeth Cymru yn hyn a phwyswn arni i barhau â'i hymdrechion i ddarparu llinell gymorth ddwyieithog ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bosibl fod angen adnoddau penodol er mwyn darparu llinell gymorth o'r fath.

Credwn hefyd y dylai unrhyw gamau gweithredu ar gyfer y dyfodol mewn Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rhianta, gan gynnwys y rhai y disgwylir i awdurdodau lleol eu datblygu, gael arian penodol clir.

Credwn hefyd y dylai llywodraeth Cymru nodi cyfanswm ei gwariant ar gymorth rhianta yn glir.

ARGYMHELLIAD 4

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau y caiff y Strategaeth Rianta gyffredinol a'r Cynllun Gweithredu Rhianta newydd eu hariannu'n llawn ac yn briodol, gan nodi'n glir y ffynonellau ariannu ar gyfer cyflwyno pob cynllun gweithredu.

ARGYMHELLIAD 5

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru nodi cyfanswm y gwariant ar gymorth rhianta a sicrhau bod mwy o dryloywedd ac eglurdeb o ran gwariant ym mhob adran yn genedlaethol ac yn lleol. Dylai hyn fod yn rhan o'r gyllideb flynyddol a'r broses o ddyrannu arian.

Hyrwyddo rhianta cadarnhaol

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi sefyll yn egwyddorol yn erbyn disgyblu plant yn gorfforol ers cryn amser. Er enghraifft, canfu adolygiad a gynhaliodd yr Adran Plant, Teuluoedd ac Ysgolion yn 2007 bod agwedd ac ymddygiad rhieni yn newid, ac mae rhieni iau yn llai tebygol na rhieni hŷn o guro'u plant er mwyn eu disgyblu wrth i fwy o rieni ddeall bod dulliau mwy effeithiol a derbynol o ddisgyblu plant.⁵⁹

Rydym yn croesawu cadarnhad y Gweinidog, mewn tystiolaeth i ni, fod llywodraeth Cymru yn parhau'n hollol ymrwymedig i amcanion yr ymgyrch 'Sdim Curo Plant, i ddiogelu plant a phobl ifanc yn gyfreithiol i'r un graddau ag oedolion, ac y bydd llywodraeth Cymru yn parhau i godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni o ffyrdd eraill o ddisgyblu plant ar wahân i ddisgyblaeth gorfforol. Credwn fod angen cydgysylltu hyn â neges gyson a gaiff ei hatgyfnerthu gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Fel y dywedodd Angela Burns AC, Aelod o'r Pwyllgor:

“there is a good feeling that the Welsh Assembly Government is taking 'Parenting Positively' as a key way forward. However, there is a slight disappointment that, perhaps, some of the local organisations have not taken it on as a strong product that they could use.”⁶⁰

Rydym yn annog llywodraeth Cymru i sicrhau consensws a momentwm ar y mater hwn ac adeiladu ar y newidiadau mewn agwedd gyhoeddus. Credwn y byddai strategaeth addysg gyhoeddus yn hyrwyddo rhianta cadarnhaol a di-drais tuag at blant a phobl ifanc. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol wedi ei becynnu fel mater iechyd cyhoeddus yn yr un modd â'r ymgyrchoedd gwisgo gwregys diogelwch a pheidio ag yfed a gyrru.

ARGYMHELLIAD 6

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal ymgyrch wybodaeth ac addysg gyhoeddus fawr i hyrwyddo rhianta cadarnhaol a di-drais tuag at blant ymysg y boblogaeth ehangach. Dylai hon gyfeirio rhieni at wybodaeth am wasanaethau cymorth ymarferol lleol i rieni. Dylai gael ei brandio â'r brand rhianta cenedlaethol. Dylai hefyd roi hysbysrwydd clir i'r llinell gymorth ddwyieithog.

⁵⁹ Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2007) [Review of Section 58 of the Children Act 2004](#)

⁶⁰ Ibid, t23

Gwell gwybodaeth a gwybodaeth haws i rieni ei defnyddio

Ymddengys bod mwy o wybodaeth ar gael i rieni, ond mae'n anodd dweud pa mor effeithiol ac ystyrlon yw'r wybodaeth honno iddynt. Rydym yn cefnogi'r wybodaeth a ddarperir drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth newydd i Deuluoedd ond mae'r prinder arian i'r Gwasanaethau hyn er mwyn hyrwyddo'u hunain a chyfathrebu â rhieni am y gwahanol wasanaethau sydd ar gael iddynt yn peri pryder i ni. Roeddem yn edmygu'r enghreifftiau a roddodd Sara Vaughan o Home Start i ni o ddefnyddio ffonau symudol a negeseuon testun fel ffordd effeithiol o gyfathrebu ac mai dyma hoff ddull cyfathrebu rhai pobl. Mae'n amlwg fod rhieni gwahanol yn cyfathrebu mewn ffyrdd gwahanol a rhaid i'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd allu cynnig amrywiaeth o opsiynau i rieni allu gael cyngor, gan gynnwys negeseuon testun a chyfathrebu drwy fformatau ysgrifenedig, dros y ffôn, wyneb yn wyneb, drwy'r rhyngwyd a thrwy DVD.

Deallwn fod llywodraeth Cymru'n bwriadu lansio ymgyrch hysbysebu genedlaethol am y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Dywedodd llywodraeth y Cynulliad wrthym y bydd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu gwefan a rhif ffôn newydd i'r Gwasanaethau, er mwyn sicrhau y caiff pobl sy'n defnyddio'r rhif eu cysylltu â chanolfan agosaf y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Rydym yn cefnogi'r ymgyrch hon a chredwn y dylid monitro pa mor effeithiol ydyw.

ARGYMHELLIAD 7

7.1 Yn dilyn ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni a gofalwyr o'r wybodaeth sydd ar gael iddynt drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ledled Cymru, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fonitro ymwybyddiaeth o'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ymysg y cyhoedd yng Nghymru.

7.2 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd alluogi'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd gael eu brandio â'r brand rhianta cenedlaethol.

Cynnwys rhieni ym mywyd yr ysgol

Cafwyd rhai gwelliannau, ond mae angen cynnwys mwy o rieni yn y penderfyniadau a wneir mewn ysgolion ac yn ehangach wrth gydgysylltu gwasanaethau'n strategol. Efallai bod angen rhoi cyfle i rieni feithrin eu gallu i gyfathrebu mewn sefyllfa strategol er mwyn eu galluogi i gymryd rhan yn effeithiol.

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd clir i ysgolion ac i awdurdodau o ran yr angen i gynnwys rhieni, yn arbennig wrth weithio gyda thadau a grwpiau anodd eu cyrraedd. Fodd bynnag, dylai gwasanaethau lleol barhau i fod yn ddigon hyblyg i ddatblygu prosesau sy'n addas i'w hanghenion lleol.

ARGYMHELLIAD 8

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad clir, statudol gan roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ac ysgolion o ran cynnwys rhieni mewn ysgolion, gan ystyried patrymau gwaith llawer o rieni yn ystod y dydd.

Datblygu sail dystiolaeth ar gyfer amrywiaeth ehangach o raglenni rhianta

Mae ein tystiolaeth yn dangos yn glir bod angen amrywiaeth eang o gymorth i rieni. Credwn y dylai llywodraeth Cymru barhau i gydnabod a chefnogi rhaglenni rhianta sydd wedi profi eu bod yn llwyddo. Mynegwyd y farn hon gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, pan ddywedodd fod angen “embed our resources in the robust delivery of programmes that have been evaluated and show delivery.”⁶¹

Fodd bynnag, credwn y dylai rhaglenni creadigol ac arloesol ar gyfer cynorthwyo rhieni, gael eu hannog, er ei bod yn bosibl nad oes ganddynt sail tystiolaeth mor gadarn. Er enghraifft, clywsom am wirfoddolwyr yn cael eu ‘derbyn’ yn aml gan deuluoedd na fyddai wedi bod mor fodlon i groesawu gweithwyr proffesiynol fel gweithiwr cymdeithasol. Clywsom am deuluoedd a oedd yn teimlo mai yno iddynt hwy ac nid er mwyn eu cyflog yr oedd y gwirfoddolwr. Dywedwyd wrthym hefyd “a family that would not accept a professional coming into the house will accept someone who they know is choosing to be there, and who they also know that they can kick out.”⁶²

